

## **Ymateb gan Arolygiaeth Gofal Cymru**

### **Ymgynghoriad: Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)**

1. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn croesawu'r cyfle i gyflwyno tystiolaeth i gefnogi ymchwiliad y Pwyllgor i egwyddorion cyffredinol y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru).
2. Er mwyn llywio ystyriaethau'r Pwyllgor, rydym wedi nodi'r cyd-destun y mae AGC yn ei gymhwyso wrth gofrestru, rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydym wedi nodi rhywfaint o wybodaeth sylfaenol am y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru a'n gweithgarwch ynddo.
3. Rydym wedi gwneud sylwadau ar egwyddorion cyffredinol Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) lle y bo'n briodol i AGC wneud hynny. Wrth baratoi'r ymateb hwn, mae AGC wedi gweithio'n agos gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

### **Rôl AGC**

4. AGC yw rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Rydym yn cofrestru, yn arolygu ac yn gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er llesiant pobl Cymru.
5. Rydym yn penderfynu pwy sy'n gallu darparu gwasanaethau; yn cymryd camau i sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol; ac yn ymchwilio i bryderon a godir am wasanaethau rheoleiddiedig.
6. Rydym yn cyflawni ein swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru. Diogelir ein hannibyniaeth drwy Femorandwm Cyd-Ddealltwriaeth rhwng y Prif Arolygydd a Gweinidogion perthnasol Cymru.

### **Y sector**

#### **Gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol**

7. Mae 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae gan AGC bwerau i adolygu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol fel y'u nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014). Rydym yn cyflawni'r swyddogaeth hon drwy gyfuniad o weithgareddau arolygu a gwerthuso perfformiad.
8. Mae ein gwaith yn seiliedig ar dystiolaeth o lygad y ffynnon. Rydym yn siarad â phobl sydd wedi defnyddio a/neu sy'n cael gwasanaethau gofal

a chymorth a'u gofalu, ac yn gwrandio arnynt. Mae arolygwyr yn triongli tystiolaeth a gesglir drwy arsylwi ar ymarfer, siarad â phobl am eu profiadau, cyfweld â staff rheng flaen a chynnal cyfarfodydd â rhanddeiliaid allweddol. Rydym yn ystyried a yw pobl yn cael profiadau cadarnhaol o wasanaethau cymdeithasol ac a ydynt yn cael eu cefnogi i gyflawni canlyniadau personol cadarnhaol.

9. Rydym yn trefnu un arolygiad o wasanaethau oedolion ac un arolygiad o wasanaethau plant yn ystod cyfnod o bedair blynedd ym mhob awdurdod lleol.

### **Gwasanaethau gofal cymdeithasol rheoleiddiedig**

10. Mae gan AGC bwerau i gofrestru, arolygu a chymryd camau gorfodi yn erbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru. Nodir y bwerau hyn yn Neddff Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol Cymru 2016 (Deddf 2016).
11. Ein prif nod yw sicrhau y caiff pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn eu cefnogi i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl, ac na chânt eu peryglu na'u niweidio. Er mwyn cyflawni hyn:
  - a) mae gennym broses gofrestru gadarn, er mwyn sicrhau mai dim ond darparwyr sydd wedi rhoi sicrwydd i ni y byddant yn cydymffurfio â rheoliadau a gaiff eu cofrestru gennym,
  - b) rydym yn cynnal arolygiadau cyffredinol ac arolygiadau ymatebol,
  - c) mae gennym lwybr gorfodi clir a chymesur sy'n dilyn camau penodol.
12. Mae pobl wrth wraidd ein harolygiadau. Fel rhan o'n harolygiadau, rydym yn ymweld â phobl yn eu cartrefi eu hunain, boed yn gartref preifat neu'n gartref gofal. Mae arolygwyr yn ymgysylltu â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau ac yn gwrandio arnynt, ynghyd â'u perthnasau, eu ffrindiau a'u gofalu, ac yn trafod eu profiad gofal â nhw.
13. Mae gennym gryn dipyn o wybodaeth am wasanaethau drwy ein prosesau cofrestru ac arolygu, ac rydym yn cael gwybodaeth o ffynonellau gwybodaeth eraill hefyd, e.e. pryderon a godwyd gan ddinasyddion a gweithwyr proffesiynol. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i bennu'r math o arolygiad y dylid ei gynnal, ynghyd â pha mor aml y dylid ei gynnal, ac i gynllunio a llywio'r hyn rydym am ganolbwyntio arno pan fyddwn yn ymweld â'r gwasanaeth.

**Tabl 1: Gwasanaethau Oedolion a Phlant a reoleiddir gan AGC ar 31 Mawrth 2019**

	<b>Nifer y Gwasanaethau</b>	<b>Nifer y Lleoedd</b>
<b>Gwasanaethau Oedolion a Phlant</b>	<b>1,807</b>	<b>26,875</b>
Asiantaethau Mabwysiadu	3	-
Cynlluniau Lleoli Oedolion	8	-
Gwasanaethau Cartref Gofal – Oedolion	1,080	26,035
Gwasanaethau Cartref Gofal – Plant	178	774
Gwasanaethau Cartref Gofal – Oedolion a Phlant	5	31
Gwasanaethau Cymorth yn y Cartref	509	-
Asiantaethau Maethu	23	-
Canolfannau Preswyl i Deuluoedd	1	35

**Tabl 2: Gwasanaethau Oedolion a Phlant: Arolygiadau a gynhaliwyd gan AGC (1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019)\***

	<b>Nifer yr Arolygiadau</b>
<b>Gwasanaethau Oedolion a Phlant</b>	<b>1,166</b>
Asiantaethau Mabwysiadu	4
Cynlluniau Lleoli Oedolion	1
Gwasanaethau Cartref Gofal – Oedolion	805
Gwasanaethau Cartref Gofal – Plant	142
Gwasanaethau Cartref Gofal – Oedolion a Phlant	2
Gwasanaethau Cymorth yn y Cartref	212
Asiantaethau Maethu	0
Canolfannau Preswyl i Deuluoedd	0

\* Noder nad yw nifer yr arolygiadau yn cynnwys arolygiadau Cofrestru.

**Tabl 3:** Nodir isod amlder cyfredol arolygiadau:

Math o wasanaeth rheoleiddiedig	Y cyfnod hwyaf rhwng arolygiadau		
	Amserlen Arferol	Cynnar	Blaenoriaeth
Cartrefi plant a llety diogel	12 mis	Dd/G	6 mis
Cartrefi gofal oedolion	18 mis	12 mis	6 mis
Cartrefi gofal sy'n darparu gofal i bobl yr aseswyd bod angen gofal nyrsio 24 awr	12 mis	Dd/G	6 mis
Cymorth yn y cartref	18 mis	12 mis	6 mis
Lleoli oedolion	36 mis	12 mis	6 mis
Canolfannau preswyl i deuluoedd	48 mis	12 mis	6 mis
Eiriolaeth	48 mis	12 mis	6 mis
Mabwysiadu	48 mis	12 mis	6 mis
Maethu	48 mis	12 mis	6 mis

## Sylwadau AGC ar egwyddorion cyffredinol Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru)

### Rhan 2: Ansawdd wrth ddarparu gwasanaethau iechyd

14. Mae AGC yn cefnogi'r bwriad i osod dyletswydd newydd i wella ansawdd gwasanaethau iechyd ar gyrff y GIG a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'u swyddogaethau o ran y gwasanaeth iechyd.
15. Byddai'n fuddiol ystyried sut mae hyn yn cyd-fynd â gofynion Deddf 2014 sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau llesiant a'r hyn sy'n bwysig i bobl. Bydd hyn yn bwysig yng nghyd-destun integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol i raddau mwy a'r datblygiadau cynyddol ym maes darparu gwasanaethau amlddisgyblaethol.
16. Mae Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) yn nodi bod ansawdd yn cynnwys effeithiolrwydd, diogelwch a phrofiad unigolion. Mae'n rhaid i'r adroddiad blynyddol ar gydymffurfiaeth o dan y ddyletswydd ansawdd a nodir yn adran 2(3) gynnwys asesiad o'r graddau y llwyddwyd i wella canlyniadau. Mae'n bwysig bod yn glir ynghylch ystyr 'canlyniadau'. A ydynt yn cyfeirio at ganlyniadau personol i bobl neu ganlyniadau iechyd/llesiant ehangach?

### **Rhan 3: Dyletswydd gonestrwydd**

17. Mae AGC yn cefnogi'r bwriad i osod dyletswydd gonestrwydd ar sefydliadau'r GIG. Mae hyn yn cyd-fynd â gofynion y ddyletswydd gonestrwydd a osodwyd ar wasanaethau gofal cymdeithasol rheoleiddiedig o dan Ddeddf 2016. Mae'r ddyletswydd hon yn gymwys i awdurdodau lleol sy'n rhedeg gwasanaethau rheoleiddiedig yn ogystal â'r sector annibynnol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau weithio mewn ffordd agored a thryloyw gydag unigolion sy'n cael gofal a chymorth, ynghyd â'u cynrychiolwyr.

### **Rhan 4: Corff llais y dinesydd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol**

18. Mae AGC yn croesawu'r cynnig i sefydlu un Corff Llais y Dinesydd (Corff) cenedlaethol ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed. Gallwn weld manteision mawr o gael Corff sy'n canolbwyntio ar adlewyrchu llais y bobl a gweithio'n agos gyda AGC ac AGIC i sicrhau bod pryderon a safbwyntiau pobl yn cael eu clywed a bod camau'n cael eu cymryd mewn ymateb iddynt. Credwn ei bod yn bwysig bod hyn yn cynnwys adborth cadarnhaol yn ogystal â phryderon, yn unol â'r dull gweithredu seiliedig ar gryfderau sy'n rhan o Ddeddf 2014.
19. Gallwn weld manteision mawr os gallwn sicrhau bod gweithgarwch ymgysylltu yn cael ei gynllunio ar y cyd â'r arolygiaethau er mwyn galluogi'r Corff i helpu i gasglu barn dinasyddion i'w bwydo i mewn i'n gwaith arolygu a'n hadolygiadau thematig.
20. Nodwn na fydd gan y Corff bwerau arolygu na mynediad. Rydym yn cefnogi hyn yn gryf gan ei fod yn sicrhau nad oes unrhyw ddryswch rhwng rôl y Corff a rôl yr arolygiaethau. Yn achos gofal cymdeithasol, mae'n bwysig cydnabod y caiff cartrefi gofal rheoleiddiedig a gwasanaethau gofal cartref eu darparu yng nghartrefi'r bobl eu hunain h.y. boed hynny mewn cartref preifat neu gartref gofal.
21. Rydym yn cytuno y bydd hi'n bwysig sicrhau bod gan y Corff broffil cyhoeddus uchel a'i fod yn defnyddio'r modelau a'r adnoddau ymgysylltu ehangaf posibl i sicrhau ei fod mor effeithiol â phosibl.
22. Bydd hi'n bwysig cael eglurder ynghylch lle'r Corff a'i gylch gwaith yn y seilwaith gofal cymdeithasol presennol i ymgysylltu â dinasyddion. Mae angen i awdurdodau lleol fodloni nifer o ofynion mewn perthynas ag ymgysylltu â dinasyddion o dan Ddeddf 2014. Er enghraifft, o dan God Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol), rhaid i awdurdodau lleol wneud y canlynol:
  - a) rhoi trefniadau tryloyw ar waith lle mae pobl yn bartneriaid cyfartal o ran cynllunio a gweithredu gwasanaethau,

- b) sicrhau bod y trefniadau hyn yn cynnwys paneli lleol a rhanbarthol o gomisiynwyr, dinasyddion a darparwyr, yn gweithio gyda'i gilydd i lywio gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pobl sydd angen gofal a chymorth,
  - c) adrodd ar yr hyn y maent yn ei wneud i gefnogi cyd-gynhyrchu yn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr.
23. Mae paneli dinasyddion rhanbarthol wedi cael eu sefydlu i roi llais i ddinasyddion ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Yn ogystal, mae'n rhaid i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol sefydlu gweithdrefn i gael safbwyntiau pobl, a rhoi cyhoeddusrwydd i'r weithdrefn honno.
24. Bydd yn hollbwysig i'r Corff weithio'n agos gyda chyrrff sydd eisoes yn rhan o'r trydydd sector ac sy'n cynrychioli llais y dinesydd, fel Anabledd Dysgu Cymru, Age Connects, yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr, Hafal ac Anabledd Cymru.
25. Rydym yn cefnogi'r cynnig y dylai'r Corff gael swyddogaeth i gyflwyno sylwadau i gyrrff y GIG ac awdurdodau lleol ynghylch *'unrhyw beth y mae'n ystyried ei fod yn berthnasol i ddarparu gwasanaeth iechyd neu ddarparu gwasanaethau cymdeithasol'*. O safbwynt sylwadau am gynllunio a newidiadau gwasanaeth mewn perthynas â swyddogaethau awdurdodau lleol, bydd hi'n bwysig nodi'n glir sut mae rôl y Corff yn cyd-fynd â rôl aelodau awdurdodau lleol a etholwyd yn ddemocrataidd a'u pwyllgorau craffu. Ai rôl y Cyrff fydd rhoi tystiolaeth i'r pwyllgorau craffu hyn?
26. O safbwynt rôl y Corff i ddarparu gwasanaethau eirioli mewn perthynas â chwynion:
- a) Gallwn weld y byddai'r Corff yn adnodd arall i bobl droi ato wrth wneud cwyn am wasanaethau cymdeithasol ond rydym hefyd yn gweld bod angen osgoi dyblygu a pheri dryswch i'r rhai sy'n gwneud cwynion. Bydd hi'n bwysig i'r corff egluro sut mae ei rôl yn y maes hwn yn cyd-fynd â'r seilwaith presennol ar gyfer gwasanaethau eirioli o dan Ddeddf 2014.
  - b) Bydd hi hefyd yn bwysig egluro p'un a fydd y Corff yn cyflawni'r rôl hon fel eiriolwr neu gynrychiolydd, a beth y bydd yn ei wneud pan gaiff cwyn ei gwneud ar ran person nad oes ganddo alluedd digonol.
  - c) Mae angen egluro rôl y Corff mewn perthynas â chwynion am wasanaethau cymdeithasol sy'n ymwneud â phlant gan nodi pa blant y gall y Corff eu cynrychioli ac o dan ba amgylchiadau. Er enghraifft, a fyddai'r Corff yn chwarae rôl mewn cwynion a wneir gan blentyn mewn cartref gofal yn erbyn darparwr preifat?
27. Rydym yn cefnogi'r cynnig y dylai'r Corff recriwtio gwirfoddolwyr i'w helpu i gyflawni ei swyddogaethau.